# Briff i’r Ymgeiswyr: Cefnogi pobl ar ddiwedd eu hoes

Gofal lliniarol a gofal diwedd oes yng Nghymru

**Mawrth 2026**

## 1. Cyflwyniad

Marie Curie yw elusen gofal lliniarol a gofal diwedd oes fwyaf y DU. Rydym yn gweithio'n galed i alluogi pobl sy'n byw gyda salwch terfynol, a'u hanwyliaid a'u gofalwyr, i gael y profiad gorau posibl ar ddiwedd eu hoes. Rydym yn cynnig gofal arbenigol ledled Cymru, yng nghymunedau pobl ac yn Hosbis Caerdydd a'r Fro ac yn rhoi gofal, arweiniad a chefnogaeth arbenigol i deuluoedd gyda materion sy'n ymwneud â marw, marwolaeth a phrofedigaeth trwy ein gwasanaethau gwybodaeth a chymorth rhad ac am ddim. Ni hefyd yw ariannwr mwyaf ymchwil gofal lliniarol a gofal diwedd oes, ac rydym yn gweithio gydag Aelodau'r Senedd a llunwyr polisi i sicrhau bod mwy o bobl yng Nghymru yn cael y profiad diwedd oes gorau posibl.

Mae'r sesiwn friffio hon wedi'i chynllunio i roi trosolwg i ymgeiswyr ar gyfer etholiad y Senedd 2026 o ofal lliniarol a gofal diwedd oes yng Nghymru. Mae gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn rhan hanfodol o'n system iechyd a gofal cymdeithasol. Pan fyddwn ni'n ei wneud yn iawn, gall gael effaith ddofn ar bobl sy'n byw gyda salwch terfynol, a'r rhai sy'n agos atynt. Yn anffodus, i ormod o bobl nid yw'r gofal sydd ei angen arnynt ar gael nac yn hygyrch. O ganlyniad, mae gan bron i un o bob tri oedolyn yng Nghymru anghenion gofal lliniarol heb eu diwallu.

Mae'r briff hwn yn esbonio beth yw gofal lliniarol a gofal diwedd oes, yn nodi'r heriau y mae ein system gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn eu hwynebu a'r atebion y mae Marie Curie yn credu sy'n angenrheidiol i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at y gofal cywir, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn.

## 2. Beth yw gofal lliniarol a gofal diwedd oes?

2.1. Mae gofal lliniarol yn cynnig cymorth corfforol, emosiynol ac ymarferol i bobl sy'n byw gyda salwch terfynol. Gellir ei gynnig ar unrhyw adeg ar ôl diagnosis terfynol.

2.2. Mae **gofal lliniarol** yn gyfannol a gall gynnwys triniaeth a gofal sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Rheoli symptomau.
- Cynnig cefnogaeth emosiynol, ysbrydol a seicolegol.

Mae Marie Curie yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207994) a'r Alban (SC038731) Wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr (507597). Swyddfa gofrestredig: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, Llundain, SW11 7BW.

Marie Curie is a registered charity in England and Wales (207994) and Scotland (SC038731). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (507597). Registered Office: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, London, SW11 7BW.

- Cynnig cymorth ymarferol, gan gynnwys pethau fel cynllunio ar gyfer y dyfodol neu gael offer.
- Rhoi ansawdd bywyd da i bobl.

2.3. Gall gofal lliniarol gynnwys gofal diwedd oes ond mae'n llawer ehangach a gall bara am gyfnod hirach. Mae **gofal diwedd oes** yn cynnig triniaeth a chefnogaeth i bobl sydd bron â bod ar ddiwedd eu hoes. Fel arfer mae'n dechrau cael ei gynnig i'r rhai y credir eu bod ym mlwyddyn olaf eu bywyd a'i nod yw helpu rhywun i fod mor gyfforddus â phosibl yn yr amser sydd ganddynt ar ôl.

2.4. Mae gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn cael ei gynnig gan amrywiaeth gymhleth o wasanaethau cyffredinol ac arbenigol ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Er y gall rhai dderbyn gofal lliniarol a gofal diwedd oes gan wasanaethau arbenigol, bydd eraill yn cael eu cefnogi gan feddygon teulu, nyrsys cymunedol ac ardal, gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig, parafeddygon a gofal cymdeithasol.

2.5. Mae hosbisau yn rhan bwysig o'r system gofal lliniarol a gofal diwedd oes ehangach hon. Mae hosbisau yn cynnig ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys gofal cleifion mewnol, gofal cleifion allanol, gofal hosbis gartref, gwasanaethau cwmnïaeth a chymorth profedigaeth.

2.6. Mae'r galw am ofal lliniarol a gofal diwedd oes yn tyfu. Erbyn y 2040au, mae'n debygol y bydd angen gofal lliniarol a gofal diwedd oes ar 37,000 o bobl yng Nghymru bob blwyddyn, cynnydd o 5,000.[1] Er mwyn bodloni'r galw cynyddol hwn, mae angen i bawb sy'n ymwneud â darparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes, ym mhob rhan o'n system iechyd a gofal cymdeithasol, weithredu.

## 3. System ar y dibyn

3.1. Mae bylchau mewn gofal a system sydd dan bwysau difrifol yn golygu bod gormod o bobl yn treulio eu dyddiau olaf ar eu pen eu hunain, mewn poen, ac yn brwydro i gael dau ben llinyn ynghyd.

3.2. Mae ymchwil ddiweddar yn amcangyfrif bod gan **bron i un o bob tri oedolyn yng Nghymru anghenion gofal lliniarol heb eu diwallu**, sy'n golygu nad yw eu symptomau'n cael eu rheoli'n effeithiol ac nad ydynt yn cael digon o gefnogaeth gan ofal sylfaenol ar ddiwedd eu hoes.[2]

3.3. Mae gan Gymru fframwaith polisi sy'n ymddangos ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes. Mae'r datganiad ansawdd ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes i Gymru yn nodi'r cyfeiriad clir y dylai'r llywodraeth, byrddau iechyd a darparwyr fod yn gweithio tuag ato. Dylai'r ddogfen newydd Manyleb Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Cymru: Gwasanaethau Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes a'r fframwaith comisiynu sydd ar ddod ar gyfer gwasanaethau hosbis sicrhau mwy o gysondeb wrth gyflawni'r uchelgeisiau lefel uchel hyn.

3.4. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae gennym fwlch gweithredu sylweddol.

---

[1] Ibid.
[2] Marie Curie (2026) *Angen gofal lliniarol heb ei ddiwallu yng Nghymru* https://www.mariecurie.org.uk/document/unmet-need-in-wales-briefing-2026-cymraeg

Mae Marie Curie yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207994) a'r Alban (SC038731) Wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr (507597). Swyddfa gofrestredig: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, Llundain, SW11 7BW.

Marie Curie is a registered charity in England and Wales (207994) and Scotland (SC038731). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (507597). Registered Office: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, London, SW11 7BW.

- Dywedodd 37% o bobl mewn profedigaeth nad oedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi trafod marwolaeth a marw gyda'r person a fu farw.[3]
- Nid oedd gan bron i un o bob pump o bobl yng Nghymru unrhyw gyswllt â meddyg teulu naill ai wyneb yn wyneb na dros y ffôn yn ystod tri mis olaf eu bywyd.[4]
- O bob ymweliad ag adran achosion brys yng Nghymru, mae un o bob 14 yn ymwneud â rhywun sydd ym mlwyddyn olaf eu bywyd.[5]
- Yn 2023, ar gyfartaledd, roedd dros un rhan o bump o welyau ysbyty yng Nghymru yn cael eu defnyddio bob dydd gan bobl yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd.[6]

3.5. Y tu ôl i'r ystadegau hyn mae profiadau byd go iawn sy'n dangos effaith gofal da a drwg ar ddiwedd oes.

- Darllenwch stori Joyce [yma](#).

## 4. Trawsnewid gofal diwedd oes: Blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru

4.1. Er mwyn gwir drawsnewid gofal lliniarol a gofal diwedd oes, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ganolbwyntio ar weithredu.

4.2. Fel yr amlinellwyd uchod, mae llawer o waith wedi'i wneud i roi'r polisi strategol angenrheidiol ar waith. Mae'r fframwaith polisi hwn yn nodi safonau clir a phenodol ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes ac yn cydnabod yr angen am ddull system gyfan i sicrhau bod pob rhan o system iechyd a gofal cymdeithasol Cymru wedi'i chyfarparu i ddiwallu anghenion pobl sy'n byw gyda salwch terfynol.

4.3. Er mwyn ysgogi newid parhaol, mae Marie Curie Cymru wedi argymell gweithredu yn y meysydd canlynol:

| | |
|---|---|
| **Cynllunio a chyflenwi gwasanaethau** | • Ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gynnal asesiadau anghenion ar lefel poblogaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes a defnyddio hyn fel sail ar gyfer gwasanaethau cynllunio.<br>• Ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael arweinydd lliniarol a gofal diwedd oes. |
| **Ariannu a chyllid** | • Sefydlu datrysiad ariannu cynaliadwy er mwyn sicrhau bod y system gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn gallu diwallu'r angen cynyddol am ofal. |

[3] Marie Curie (2024) *Time to care in Wales Implications for Wales of 'Time to Care: Findings from a nationally representative survey of experiences at the end of life in England and Wales'*
[4] Ibid.
[5] Marie Curie (2025) *At breaking point: Time to transform end of life care in Wales*
https://www.mariecurie.org.uk/get-involved/campaigns/senedd-manifesto
[6] Ibid.

Mae Marie Curie yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207994) a'r Alban (SC038731) Wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr (507597). Swyddfa gofrestredig: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, Llundain, SW11 7BW.

Marie Curie is a registered charity in England and Wales (207994) and Scotland (SC038731). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (507597). Registered Office: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, London, SW11 7BW.

| | |
|---|---|
| **Gweithlu** | • Cynnal cyfrifiad rheolaidd o'r gweithlu gofal lliniarol a gofal diwedd oes i helpu gyda chynllunio a datblygu'r gweithlu. |
| **Gofal cymunedol a gofal y tu allan i oriau** | • Gosod nyrs gofal lliniarol ym mhob clwstwr gofal sylfaenol i roi cyngor ac arweiniad arbenigol a chefnogi cydlynu gofal effeithiol.<br>• Cynnig pwynt mynediad unigol 24/7 trwy 111, wedi'i staffio gan staff gofal lliniarol sydd wedi'u hyfforddi'n glinigol.<br>• Integreiddio parafeddygon gofal lliniarol i mewn i dimau gofal lliniarol ledled Cymru. |
| **Gofalwyr di-dâl** | • Cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr yn gyson a'u hadolygu'n rheolaidd.<br>• Datblygu hyfforddiant o ran y sgiliau hanfodol sydd eu hangen i ofalu am rywun ar ddiwedd oes ar gyfer gofalwyr di-dâl. |
| **Tlodi** | • Cynnwys pobl sy'n byw gyda salwch terfynol o fewn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. |

## 5. Cael cefnogaeth

Os ydych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod angen cyngor neu gymorth mewn perthynas â marwolaeth, marw, gofal lliniarol a gofal diwedd oes neu brofedigaeth, mae gan Marie Curie ystod o gymorth ar gael:

- Mynediad i wybodaeth a chyngor ar-lein: https://www.mariecurie.org.uk/
- Ffoniwch ein llinell gyngor ar **0800 090 2309**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Natasha Davies
**Uwch Reolwr Polisi, Cymru**

Natasha.Davies2@mariecurie.org.uk

Dr Tomos Evans
**Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Cymru**

Tomos.Evans@mariecurie.org.uk

Mae Marie Curie yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (207994) a'r Alban (SC038731) Wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr (507597). Swyddfa gofrestredig: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, Llundain, SW11 7BW.

Marie Curie is a registered charity in England and Wales (207994) and Scotland (SC038731). Registered as a company limited by guarantee in England & Wales (507597). Registered Office: One Embassy Gardens, 8 Viaduct Gardens, London, SW11 7BW.